CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Emma Wilkins - Democratic Services (01443 424110)

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn **Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypandy, CF40 2XX** ar **DYDD MERCHER, 18FED MEDI, 2019** am **5.00 PM.**

AGENDA **Tudalennau**

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor.

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agenda y mae eu buddiant yn ymwneud ag e a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael

2. CYHOEDDIADAU

3. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor, a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2019, yn rhai cywir.

7 - 22

LLYWODRAETHU AGORED

4. DATGANIADAU

Yn unol â Rheol 2 o Weithdrefn Llywodraethu Agored Cyfarfodydd y Cyngor, derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau Portffolio o'r Cabinet:

5. CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR

Derbyn cwestiynau'r Aelodau yn unol â Rheol 9.2 o Weithdrefn y Cyngor.

(**Nodwch**: Caniateir hyd at 20 munud ar gyfer cwestiynau.)

23 - 30

SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

6. ARCHWILIAD GWELLA BLYNYDDOL SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Derbyn yr Archwiliad Gwella Blynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

31 - 100

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

RHAGLEN WAITH Y CYNGOR - ER GWYBODAETH I AELODAU

7. DIWEDDARIAD YNGLYN Â BREXIT

Derbyn y newyddion diweddaraf gan y Prif Weithredwr.

8. ADOLYGU TREFNIADAU ETHOLIADOL Y CYNGOR GAN GOMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

Derbyn adroddiad ar y cyd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu.

101 - 112

9. DIWEDDARIAD AR RYBUDD O GYNNIG - ISADEILEDD CERBYDAU CARBON ISEL (LCV) YN RHONDDA CYNON TAF

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu.

113 - 126

10. NEWID AELODAETH

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu.

127 - 130

11. RHYBUDD O GYNNIG

A. Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G.Davies, K.Morgan, P.Jarman, D.Grehan, H.Fychan, J.Williams, A.Cox, D.Macey, J.Cullwick, J.Davies, M.Weaver, S.Rees Owen, L.Jones E.Stephens E,Griffiths, E,Webster, S.M. Evans, ac A. Chapman.

Gyda dyfodiad y Metro sydd wedi'i gymeradwyo yn 2022, ynghyd â'r dyheadau sydd wedi'u nodi yn strategaeth Dwristiaeth arfaethedig y Cyngor, mae hi bellach yn bryd i ni alw am ddatblygu'r rheilffyrdd ymhellach yn y Sir yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor yma felly'n galw ar Gyd-gabinet Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i ymrwymo i ymestyn llinell deithwyr Aberdâr i Hirwaun, yn amodol ar ymgynghoriad llawn â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill ar leoliad yr orsaf fel ei bod yn hygyrch ac yn cael defnydd llawn.

Mae'r Cyngor yma hefyd yn galw ar Gyd-gabinet Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i ymestyn llinell Treherbert i Dynewydd, yn amodol ar y ffaith ei fod e wedi'i gynnwys yng Nghynllun Datblygu Lleol adolygedig RhCT.

***

B. Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J. Bonetto, M. Webber, , L. M. Adams, D. R. Bevan, H Boggis, S. Bradwick, J Brencher, A Calvert, G. Caple, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L De- Vet, J Elliott, S.Evans, M Fidler Jones, M. Forey, A. Fox, E. George, M. Griffiths, J. Harries G. Holmes, G. Hopkins, G. W. Hughes, G. Jones, R. Lewis, W Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, S Pickering, S. Powell, S Rees, A. Roberts, J. Rosser, G Stacey, M Tegg, G Thomas, W Treeby, R K Turner, D. Williams, T. Williams, C. J. Willis a R. Yeo:

Ar ôl bron i ddegawd o gyni cyllidol yn y sector cyhoeddus a'r toriadau milain ar draws cyllid y sector cyhoeddus a orfodwyd gan Lywodraeth San Steffan yn olynol dan arweiniad y Ceidwadwyr, mae'r Cyngor yma'n nodi'r golled syfrdanol o 60 ceiniog allan o bob £1 a roddwyd i awdurdodau lleol gan Lywodraeth San Steffan dros y 10 mlynedd ddiwethaf.
Mae'r Cyngor yma'n awyddus i gofnodi sut mae'r trefniant anghynaladwy yma'n rhoi baich sylweddol ar y gwasanaethau rheng flaen hanfodol sy'n cael eu darparu gan Gynghorau, ac yn

parhau i wthio awdurdodau lleol tuag at bwynt argyfwng wrth i'r gofynion ar wasanaethau fel gofal cymdeithasol ac addysg barhau i gynyddu.

Yn rhan o hyn, mae staff gweithgar y sector cyhoeddus hefyd wedi dioddef trwy flynyddoedd o atal cyflogau, sydd wedi cyfrannu at ostyngiad mewn cyflogau mewn termau real, er gwaethaf llwythi gwaith cynyddol ac ansicrwydd o ran swyddi. O ganlyniad, hoffai'r Cyngor yma gofnodi ei ddiolch am y cyfraniad aruthrol y mae staff Cyngor Rhondda Cynon Taf yn ei wneud bob dydd wrth ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl mewn amgylchiadau heriol.

Mae'r Cyngor yma o'r farn:

- Bod maint y cyni wedi cyrraedd pwynt lle gallai dyfarnu codiad cyflog cyfiawn hyd yn oed fygwth gwaith o ddarparu gwasanaethau rheng flaen.

- O ganlyniad i hyn, mae'r Cyngor o'r farn bod yn rhaid i Lywodraeth y DU gymryd cyfrifoldeb ac ariannu cynnydd teg yng nghyflog staff y Cyngor yn llawn, a pheidio â throsglwyddo'r cyfrifoldeb i awdurdodau lleol.

Mae'r Cyngor yma, felly, yn penderfynu:

- Cefnogi ein cydweithwyr mewn Undebau Llafur i fynnu setliad cyflog teg, wedi'i ariannu'n llawn ar gyfer staff y Cyngor.

- Galw ar Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a CLlL i gyflwyno achos i Lywodraeth y DU.

- Ysgrifennu at y Canghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol i alw am ariannu codiad cyflog i weithwyr llywodraeth leol gydag arian newydd gan Lywodraeth San Steffan.

- Cyfarfod â chynrychiolwyr undebau lleol y Cydgyngor Cenedlaethol i ddangos cefnogaeth i'r hawliad am gyflog.

- Parhau i annog holl weithwyr y Cyngor i ymuno ag undeb llafur.

***

12. MATERION BRYS

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu

At: Pob Aelod o'r Cyngor